

Rhybudd am Fulod Arian

Annwyl Rhieni a Gwarchodwyr,

Yn yr ysgol, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglen addysg sy'n rhybuddio am beryglon a chanlyniadau dod yn ful arian. Rydyn ni angen eich help chi i'w rhybuddio nhw hefyd.

Beth yw mul arian?

Mul arian yw rhywun sy'n trosglwyddo arian sydd wedi'i ddwyn trwy eu cyfrif banc eu hunain ar ran rhywun arall ac yn aml yn cael ei dalu am wneud hynny, naill ai mewn arian parod neu gydag eitemau fel ffonau neu esgidiau ymarfer corff.

Mae angen mulod arian ar droseddwr i wyngalchu elw eu troseddau.

Mae pobl ifanc yn cael eu targedu fwyfwy i fod yn fulod arian. Cysylltir â nhw ar-lein, yn aml trwy'r cyfryngau cymdeithasol, neu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, coleg neu glybiau chwaraeon. Weithiau mae pobl y maent yn eu hadnabod yn eu perswadio i gymryd rhan, yn aml oherwydd eu bod nhw hefyd yn gweithredu fel mulod arian.

Fel arfer ni fydd mulod yn ymwybodol o ble mae'r arian yn dod - twyll a sgamiau fel arfer - ac y gall fynd ymlaen i ariannu troseddau fel delio cyffuriau, masnachu mewn pobl a gweithgarwch terfysgol.

Mae bod yn ful arian yn anghyfreithlon

Pan fydd rhywun yn cael ei ddal, bydd ei gyfrif banc yn cael ei gau, a bydd yn cael problemau wrth gael benthyciadau myfyrwyr, contractau ffôn symudol a chredyd yn y dyfodol. Gallai hyd yn oed wynebu cael ei arestio am wyngalchu arian sydd ag uchafswm dedfryd o 14 mlynedd yn y carchar.

Beth i gadw llygad amdano

Arwyddion y gallai rhywun fod yn gysylltiedig ag ef yw fod ganddo arian ychwanegol yn sydyn, yn prynu dillad newydd drud neu ffonau symudol a theclynnau o'r radd flaenaf heb fawr o esboniad ynghylch sut y cafodd yr arian. Gall hefyd ddod yn fwy cyfrinachol, encilgar neu ymddangos dan straen.

Gallwch chi a'ch plentyn ddysgu mwy a chael cyngor trwy fynd i www.dontbefooled.org.uk gyda'ch gilydd.

Os ydych chi'n poeni y gallai rhywun sy'n agos atoch fod yn gysylltiedig â mulod arian, gallwch gysylltu â **Crimestoppers** yn ddienw ar **0800 555 111**.

Peidiwch â cheisio cysylltu ag unrhyw unigolyn rydych yn amau ei fod yn trefnu mulod arian.

Money Mules Warning

Dear Parent/Carer,

At school, young people are taking part in an education programme that warns about the dangers and consequences of becoming a money mule. We need your help to warn them too.

What is a money mule?

A money mule is someone who transfers stolen money through their own bank account on behalf of someone else and is often paid for doing so, either in cash or with items such as phones or trainers.

Criminals need money mules to launder the profits of their crimes.

Young people are increasingly being targeted to become money mules. They are approached online or in person, including through social media, at school, college or sports clubs. Sometimes people they know persuade them to take part, often because they are also acting as money mules.

Mules will usually be unaware of where the money comes from – commonly fraud and scams – and that it can go on to fund crimes such as drug dealing, people trafficking and terrorist activity.

Being a money mule is illegal

When someone is caught, their bank account will be closed, and they will have problems getting student loans, mobile phone contracts and credit in the future. They could even face arrest for money laundering which carries a maximum sentence of 14 years in prison.

What to look out for

Tell-tale signs that someone might be involved could be them suddenly having extra cash, buying expensive new clothes or top-of-the-range mobile phones and gadgets with very little explanation as to how they got the money. They may also become more secretive, withdrawn or appear stressed.

You and your child can learn more and get advice by visiting www.dontbefeoled.org.uk together.

If you are worried that someone close to you might be involved in money muling, you can contact **Crimestoppers** anonymously on **0800 555 111**.

Please do not attempt to contact any individual you suspect of organising money muling.